



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Glan Morfa

**Ffordd Y Morfa
Abergele
Conwy
LL22 7NU**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Glan Morfa

Enw'r darparwr	Ysgol Glan Morfa
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	255
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	195
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	26
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	18.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	9.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	15.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2008
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	03/02/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	02/10/2023

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Glan Morfa yn gymuned hapus a chartrefol lle mae disgyblion a staff yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, ac yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg wrth gychwyn yr ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth yn gyflym, a thros amser yn dod yn siaradwyr hyderus ac aeddfed. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd i fwynhau agweddau o ddiwylliant cyfoes Cymreig, gydag aelodau o gynghorau'r ysgol yn eu cefnogi'n llwyddiannus. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol yn ystod eu gwersi ac amseroedd anffurfiol. Maent yn rhyngweithio'n aeddfed, gan ofalu am ei gilydd yn ofalgar.

Mae'r athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda ac yn hyrwyddo eu lles yn effeithiol. Mae disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cefnogaeth addas sy'n caniatáu iddynt wneud cynnydd cadarn dros amser. Mae'r staff yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog, gyda'r disgyblion yn cyfrannu eu syniadau'n fwriadus i'r gweithgareddau dysgu.

Mae arweinwyr a staff yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygu egwyddorion perthnasol gyda disgyblion. Mae athrawon yn amrywio dulliau addysgu yn effeithiol i ddatblygu hyder ac annibyniaeth disgyblion. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn herio a chefnogi disgyblion i wneud cynnydd hynod gadarn. Er hyn, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

Mae diwylliant cryf o gydweithio a rhannu arbenigedd yn yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach, sy'n cael ei chefnogi gan aelodau'r corff llywodraethol, arweinwyr, athrawon a chymorthyddion. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae arweinwyr yn anelu at welliant parhaus ac yn dyrannu cyllid yn ofalus er mwyn datblygu'r ddarpariaeth a diwallu anghenion disgyblion.

Argymhellion

- A1 Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion wneud cynnydd mewn gweithgareddau dysgu annibynnol
- A2 Lledaenu'r arferion addysgu cryfaf ar draws yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sydd tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygiad, oni bai am fedrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf ohonynt. Tros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn hyderus, ac erbyn brig yr ysgol maent yn datblygu'n ddysgwyr aeddfed sy'n deall sut maent yn dysgu orau. Mae disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sydd ag ADY, a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae medrau llafar Cymraeg bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. Maent yn cael eu trochi yn yr iaith yn llwyddiannus ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o eirfa a phatrymau Cymraeg. Er enghraifft, maent yn canu hwiangerddi a chaneuon cyfoes yn fyrlymus wrth gyfarch ei gilydd a dysgu dyddiau'r wythnos. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn siarad yn hyderus a chywir gan egluro sut maent yn mynd ati i gyflawni eu tasgau a pha agweddau oedd fwyaf heriol iddynt. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu medrau holi pwrpasol, er enghraifft wrth gyfweld milwyr Rhufeinig a Cheltaidd yn ystod gweithgaredd chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn siarad Cymraeg a Saesneg gan ddefnyddio geirfa estynedig. Mae llawer yn trafod yn systematig mewn grŵp wrth ddatrys problemau rhesymu rhifiadol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Mae'r darllenwyr mwyaf aeddfed ym Mlwyddyn 2 yn dechrau addasu goslef eu llais gan greu effaith ac ystyr, ac yn magu rhuglder wrth ddarllen darnau cynyddol estynedig. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn siarad yn hyderus am eu hoff awduron, a'r boddhad maent yn ei gael wrth ddarllen gwahanol ffurfiau. Maent yn darllen yn rhugl, gan hunangywiro pan fydd gair neu gymal yn heriol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn darllen yn hyderus ac aeddfed. Maent yn trafod eu hoff gymeriadau, ac yn egluro pam mae gwahanol ddeunydd yn apelio atynt. Mae llawer yn cywain gwybodaeth yn llwyddiannus er mwyn ateb gofynion gwahanol dasgau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu gan ddangos gafael gyson ar sillafu ac atalnodi. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio berfau gorchmynnol wrth greu cyfarwyddiadau i wneud crymbl mwyar duon ar gyfrifiadur llechen. Mae disgyblion yn ysgrifennu mewn ystod ddiddorol o ffurfiau, er enghraifft wrth greu sgrïpt yn dilyn cyfweiliad â pherson sy'n byw yn Lesotho. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu i safon dda mewn amrywiol gyd-destunau yn Gymraeg a Saesneg. Mae ganddynt afael gadarn ar ffurfiau yn y ddwy iaith, ac yn defnyddio elfennau amrywiol fel cymariaethau er mwyn cyfoethogi eu gwaith. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu bywgraffiadau effeithiol o'r awdur Affricanaidd, Beverley Naidoo.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae gan y disgyblion ieuengaf afael gadarn ar elfennau rhif, siâp, a data. Maent yn cymhwysu eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth greu graffiau yn dangos eu hoff

gymeriad. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r medr mesur ac yn defnyddio unedau safonol yn gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau yn fuddiol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn egluro sut maent yn defnyddio fformiwla fathemategol i ddarganfod oedran coed ar gae'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio teclynnau digidol yn fedrus er mwyn cefnogi eu dysgu. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn creu amrywiol animeiddiadau yn hynod effeithiol gan ddefnyddio pecynnau codio. O oedran ifanc, mae'r disgyblion yn cymryd cofnod o'u gwaith er mwyn ei rannu'n ddiogel â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu wynebâu gan ddefnyddio deunyddiau naturiol fel brigâu a dail oddi ar gae'r ysgol. Mae'r disgyblion yn mwynhau mynd i'r blwch offerynnau cerdd yn yr ardal allanol er mwyn cyfansoddi darnau i gyd-fynd â chymeriadau stori Rala Rwdins. Mae'r disgyblion hynaf yn dysgu am ddawns y Charleston fel rhan o'u gwaith ar yr Ail Ryfel Byd.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod eu gweithgareddau, tra'n gweithio'n annibynnol, ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Maent yn ystyriol iawn o'u cyfoedion ac yn ymateb yn aeddfed pan fydd disgyblion yn wynebu heriau penodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio'n dda â chyfoedion ac oedolion sy'n gofalu amdanynt. Maent yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni am unrhyw agwedd o'u profiad yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau'n hyderus ac yn fodlon rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae bron bob disgybl yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu gwersi a gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn mwynhau gweithgareddau fel cerdded y filltir dyddiol ac yn teimlo bod hyn yn cefnogi eu lles yn effeithiol. Mae gweithgareddau fel yr her wythnosol yn cynnal ffocws ar eu lles yn llwyddiannus.

Yn ystod gweithgareddau, mae bron bob disgybl yn barod i ddysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau dysgu yn gynyddol annibynnol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder cynyddol ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ddysgu a chwarae yn y dosbarth neu yn yr ardaloedd tu allan. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn dyfalbarhau wrth reoli beiciau yn llwyddiannus gan ddatblygu hyder i fentro.

Mae llawer o'r ddisgyblion hynaf yn dyfalbarhau'n hynod aeddfed, gan gynnig cymorth i'w ffrindiau wrth gyflawni tasgau. Maent yn barod i holi am gymorth gan aelodau'r grŵp. Ar frig yr ysgol, maent yn cwblhau dyddiadur digidol a'i ddiweddarau'n wythnosol sy'n eu cefnogi i grynhoi eu datblygiad personol, eu medrau llafar ac yn cefnogi eu lles yn hynod llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu eraill. Mae'r disgyblion hynaf yn ystyried a thrafod hawliau plant yn ystyrlon. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyriol o

effaith pobl ar yr amgylchedd. Maent yn deall rheolau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg.

Mae ychydig o ddisgyblion yn cynrychioli eu cyfoedion ar wahanol gynghorau fel y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn gwerthfawrogi'r berthynas agos a chefnogol sydd ganddynt gydag arweinwyr a staff, ac yn mwynhau cydweithio a datblygu hyder wrth ymroi'n llwyr i'r grwpiau hyn. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn rhannu profiadau â disgyblion eraill yn rhanbarthol, er enghraifft wrth fynychu cynhadledd hawliau plant.

Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cael eu herio gan weithgareddau dysgu annibynnol, ac yn dangos dyfalbarhad effeithiol wrth geisio cyflawni eu tasgau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gweithio'n ardderchog wrth ddedol yr her berthnasol wrth gyflawni tasgau annibynnol ac yn gwneud eu gorau glas i'w cyflawni'n llawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig yn ystod gwersi, ac yn canolbwyntio'n hynod effeithiol am gyfnodau estynedig. Mae'r disgyblion ieuengaf yn deall trefniadau'r dosbarth yn fuan ac yn dysgu chwarae'n hapus ochr yn ochr â'u ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at waith newydd. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i rannu syniadau ac awgrymiadau am yr hyn maent am ei ddysgu. O ganlyniad i'r cyfleoedd nodedig hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgolli'n llwyr ac yn mwynhau eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n aeddfed ar gyfraniadau pobl eraill ac yn dysgu parchu eu barn. Mae'r disgyblion hynaf yn modelu'r ymddygiadau hyn ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn effeithiol iawn. Maent yn parchu barn ei gilydd ac yn deall pwysigrwydd goddefgarwch. Mae hyn yn hyrwyddo ethos caredig yr ysgol yn llwyddiannus. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd derbyn ac ymateb i adborth gan eu cyfoedion ac athrawon. Ar frig yr ysgol, mae'r berthynas hon wedi'i sefydlu'n hynod effeithiol ac mae'r disgyblion yn deall effaith adborth wrth iddynt ddatblygu eu medrau a gwneud eu gorau.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog ac yn darparu profiadau dysgu sy'n sbarduno disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth werthfawr hon yn cwmpasu meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru yn fwriadus ac yn ennyn diddordeb a mwynhad disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm cyfoethog wrth sicrhau dilyniant ym medrau disgyblion. Mae staff yn rhoi lle amlwg i syniadau'r disgyblion fel rhan o'r broses gynllunio. Mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i ddylunio cwricwlwm sy'n ymgorffori'r egwyddorion perthnasol. Mae'r ethos o Gymreictod yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm sy'n plethu drwy holl fywyd a gwaith yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynnig arweiniad clir ac effeithiol yn ystod gweithgareddau dysgu. Maent yn cymell disgyblion yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn gweithio'n annibynnol o oedran cynnar. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl ac maent yn annog parch a chwarteisi ganddynt.

Lle mae'r addysgu'n hynod effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod effeithiol. Yn yr enghreifftiau hyn, mae disgyblion yn gweithio'n annibynnol wrth gymhwyso eu medrau'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cefnogi anghenion disgyblion yn fedrus, ac yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol drwy holi treiddgar. Darperir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drafod eu gwaith, er enghraifft wrth iddynt ymateb i feini prawf llwyddiant ar gyfer eu tasgau neu wrth asesu gwaith cyfoedion. Mae'r cwricwlwm yn darparu gweithgareddau sy'n diwallu anghenion dysgu pob disgybl gan ddarparu rhaglenni cymorth addas i'w cefnogi a'u herio. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu adnoddau a chefnogaeth sy'n sicrhau cyfle teg i'r holl ddisgyblion elwa ar brofiadau a gwneud cynnydd, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae staff yn darparu adborth defnyddiol sy'n caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu gwaith yn llwyddiannus.

Mae staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r ardaloedd allanol eang i hyrwyddo'r dysgu. Mae disgyblion yn dysgu am eu hamgylchfyd naturiol tra'n datblygu eu medrau, er enghraifft wrth ddewis adnoddau naturiol i ddarlunio cymeriadau. Mae'r gweithgareddau awyr agored yn hyrwyddo medrau creadigol y disgyblion ieuengaf yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu a pherfformio sioe bypedau ar y llwyfan llon, ac yn cyfansoddi darnau cerddorol i gyfleu cymeriadau Gwlad y Rwla yn y gornel gerdd.

Mae staff yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau yn gyson ac ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn hyder llafar Cymraeg disgyblion mewn gweithgareddau yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ymarfer berfau gorchmynnol yn y gegin fwd, ac wrth gynllunio ac arwain sesiwn ffitrwydd ar gyfer milwr Rhufeinig.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddarllen ystod o destunau addas a difyr fel rhan o waith thematig y dosbarth, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau amrywiol. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd a'u medrau digidol yn llwyddiannus wrth greu basdata o allyriadau carbon yn yr amgylchedd mewn rhai o brif ddinasoedd y byd. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu gweithgareddau sy'n herio disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy wahodd ymwelwyr a threfnu ymweliadau i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol, er enghraifft wrth i ddisgyblion ymweld ag amgueddfa wrth ddysgu am y Rhufeiniaid. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio gydag artistiaid lleol a beirdd cenedlaethol, er enghraifft wrth greu cerdd gyda bardd plant Cymru, a chydweithio ag arlunydd amgylcheddol. Maent hefyd yn manteisio ar adnoddau'r ardal leol i sbarduno'r dysgu, gan gynnwys ymweliadau cyson â llyfrgell Abergele a Pharc Pentre Mawr.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cynnig gweithgareddau dysgu perthnasol er mwyn datblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Trwy ymweliadau'r heddwas cymunedol a chysylltiadau ag asiantaethau lleol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â'u lles, eu dewisiadau o fyw'n iach a'u hymddygiad. Mae gan yr ysgol ethos cryf o hyrwyddo a chefnogi lles corfforol ac emosiynol y disgyblion.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion yn ogystal â meysydd mae angen iddynt eu datblygu.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r holl staff yn ymrwmo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a chefnogaeth i ddisgyblion. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i greu awyrgylch hapus a chynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth a Chymreictod yn hynod effeithiol. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus drwy ystod o weithgareddau sy'n hyrwyddo gwerthoedd fel parch, empathi a thrugaredd yn effeithiol.

Mae gan staff adnabyddiaeth drylwyr o'r disgyblion a'u hanghenion. Maent yn sefydlu gweithdrefnau cynhwysfawr i olrhain cynnydd a lles disgyblion gan roi sylw manwl i'r sawl sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r prosesau hyn yn bwrpasol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o raglenni cymorth yn gynnar, sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau gyda llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag ADY. Mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), gyda chefnogaeth athrawon, yn creu proffiliau manwl sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am ddiddordebau'r disgyblion a sut i hyrwyddo eu lles i'w cefnogi i gyrraedd eu targedau. Mae'r CADY yn olrhain cynnydd o'u cyraeddiadau blaenorol yn fanwl. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd buddiol o gefnogaeth asiantaethau ac arbenigwyr, er enghraifft wrth weithredu dulliau i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion penodol gyda iaith a lleferydd. O ganlyniad i'r gwaith manwl hwn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da.

Mae'r pennaeth a'r staff cyfan yn darparu'n fwriadus ar gyfer diwallu anghenion lles disgyblion. Mae'r profiadau hyn yn cynnwys cyflwyno rhaglen gymorth lles a darparu sesiynau gwerthfawr yn yr ardal awyr agored gan gynnwys y 'Llong Lles' a'r 'Llwyfan Llon'. Mae'r ysgol yn cyflwyno 'Hawl yr wythnos' sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o'u hawliau.

Mae athrawon a'r cymorthyddion yn rhoi pwyslais amlwg ar lais y disgybl wrth gynllunio'r cwricwlwm drwy ddewis themâu, llunio mapiau meddwl o weithgareddau posibl a chreu cwestiynau yr hoffent ymchwilio iddynt. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cytuno ar thema 'O dan eu traed', ac yn cyfrannu at syniadau am weithgareddau a chynnig awgrymiadau am ymweliadau allai gyfoethogi'r gwaith.

Mae gan yr ysgol ystod dda o gynghorau sy'n hyrwyddo llais y disgyblion yn effeithiol. Mae'r cynghorau'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a

gwaith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at lunio rheolau'r ysgol a threfnu gwahodd Cymry enwog cyfoes i ymweld â'r ysgol i danio angerdd disgyblion at y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith disgyblion ac yn cael effaith uniongyrchol ar eu lles. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn ystod o weithgarwch chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o gyfleoedd bwriadus i ddefnyddio'r ardal allanol i ddatblygu medrau corfforol ac mae cyfleoedd i'r disgyblion hynaf gymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu unigolion iach a hyderus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'r diwylliant Cymraeg cyfoes yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwynhau cerddoriaeth Gymraeg gyfoes a chyfansoddi cerddi gyda bardd plant Cymru, Casi Wyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn falch o fod yn Gymry.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnal sesiynau cydaddoli dyddiol gyda chyfle i ddisgyblion fyfyrion ar werthoedd a'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt i roi o'u gorau. Mae'r ddarpariaeth yn gosod pwyslais ar ddysgu am grefyddau eraill yn ogystal â Christnogaeth. Caiff disgyblion gyfle i ddysgu am grefyddau fel Iddewiaeth sy'n cynnwys ymchwilio i draddodiadau, adeiladau a dathliadau y crefyddau hyn.

Mae'r ysgol yn monitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau a ddefnyddir i herio presenoldeb isel yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb.

Mae'r diwylliant o ddiogelu yn flaenoriaeth i bob aelod o staff ar draws yr ysgol ac maent yn sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth werthfawr y dirprwy a'r holl staff, yn cydweithio'n hynod effeithiol i greu amgylchedd dysgu Cymreig a gofalgwr sy'n ymrwymedig i'r disgyblion. Mae arweiniad clir a doeth y pennaeth yn sicrhau cyfeiriad strategol pwrpasol. Mae'r pennaeth yn ennyn brwdfrydedd holl aelodau'r staff i wneud eu gorau glas er budd y disgyblion. Mae gweledigaeth gytûn cymuned yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu lles, safonau uchel a chynnal pherthnasoedd gweithio da. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol tuag eu dysgu ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u Cymreictod.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr ac athrawon yn craffu ar waith a thrafod â disgyblion, ymweld â sesiynau dysgu ynghyd â chasglu barn rhieni yn fwriadus. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn gywir. Maent yn cynllunio'n bwrpasol i wella agweddau fel datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion. Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnydd a chodi safonau disgyblion gan gyflwyno

profiadau sy'n cyfoethogi profiad dysgu'r disgyblion. Yn ogystal, maent yn ystyriol iawn o bwysigrwydd cynnal lles disgyblion a staff.

Mae arweinwyr yn trafod a gweithredu ar faterion sy'n cysylltu â blaenoriaethau cytûn. Mae gan bob un o'r athrawon gyfrifoldeb am faes dysgu a phrofiad sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu hyder wrth ysgwyddo rolau arwain. Mae'r cymorthyddion yn aelodau allweddol iawn o dîm yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n fedrus at gefnogi dysgu a hyrwyddo lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â'r datblygiadau diweddar ym maes addysg. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion elwa o egwyddorion a disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru ac yn gweithredu elfennau allweddol y ddeddf ADY yn effeithiol.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd. Maent yn derbyn ac ymateb i wybodaeth a chyflwyniadau defnyddiol gan y pennaeth ac arweinwyr eraill am waith yr ysgol. Maent yn herio arweinwyr yn ystyrlon ac yn cyfrannu'n briodol at lunio blaenoriaethau gwella. Maent yn cydweithio ag arweinwyr a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ag yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwariant yn cysylltu'n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gyllideb i gyfoethogi'r cwricwlwm a hyrwyddo'r dysgu. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â'u blaenoriaethau cyfredol ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau gwerth am arian. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddi diweddar mewn adnoddau ar gyfer ardal allanol y disgyblion ieuengaf. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o'r grant datblygu disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad da iawn o adnoddau sy'n cefnogi'r dysgu'n effeithiol gan gynnwys offer digidol, llyfrau darllen ysgogol ac offer addas i hybu dysgu yn yr awyr agored.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth arweinwyr eraill, yn meithrin perthynas gynhyrchiol â rhieni ac yn sicrhau bod ganddynt dulliau cyfathrebu effeithiol i'w galluogi i godi unrhyw fater all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Er enghraifft, mae'r pennaeth yn rhannu cylchlythyr rheolaidd sy'n cynnwys gwybodaeth am faterion pwysig am waith yr ysgol. Mae staff yn rhannu lluniau a chlipiau digidol o ddisgyblion trwy ddull diogel, sy'n darparu gwybodaeth werthfawr am brofiadau dysgu'r disgyblion i rieni.

Nodwedd gadarn arall o'r arweinyddiaeth yw'r cyfleoedd pwrpasol sy'n cefnogi staff i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i fynychu hyfforddiant pwrpasol am ddatblygiadau meysydd Cwricwlwm i Gymru. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol athrawon yn bwrpasol ac yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd a safonau disgyblion. Mae gan yr ysgol berthynas weithredol ag ysgolion y clwstwr ac ysgolion uwchradd sy'n cynnwys cynnal adolygiadau o ddarpariaeth benodol ar draws y teulu o ysgolion. Mae hyn yn gyfle da i staff rannu arferion ac elwa o ddysgu proffesiynol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfennau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2023